

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM Mai 22ain 2024.

PRESENNOL – Gwyn Davies, Awel Hughes Cadeirydd, Carwyn Edwards, Llyr Jones, Sioned Jones, Rhian Ellis (Clerc). Cyng Gwennol Ellis, Glennydd Evans.

1. YMDDIHEURIADAU – Gwynfryn Jones, Alun Jones

2. DATGAN BUDDIANNAU – Awel Hughes (Ysgol + Pamffledi)

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF – Cynigwyd yn gywir gan Gwyn Daveis ac eilwyd gan Glennydd Evans.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION – Arolwg Strythwyrol ar y Neuadd Fach, y cwmni ddim wedi anfon dim I Ilan Jones.

Angen Sgips yma dwy waith y flwyddyn gan fod y sgips yn llawn o fewn yr awr.

Y Clerc I anfon llythyr o ddiolch I Tegni am roi drws Newydd ar y Cwt Hers, mae canol y Llan yn edrych dipyn gwell.

Angen cael pris gan R D Ellis a Iwan Jones I beintio y Cwt hers.

5. CYLLIDEB - Yn y Banc 29.04.24 £18,902.74

Gwariant hyd yma Nant Fach - £1674.00

6. TALIADAU - Cynigwyd talu yr isod gan Gwyn ac eilwyd gan Sioned a phawb yn gytun.

Unllais Cymru		s143	£90.00
R.R Jones	Gosod Giat	s19	£168.00
Awel Hughes	Pamffledi	s19	£35.98
Iona Edwards	Cyflogau	s150	£60.00
Iona Edwards	Awdit	s111	£60.00
Lelo Sgips		s19	£624.00

7. NEUADD FACH - DIM

8. CAEAU CHWARAE -

DINMAEL - Glennydd ac Awel wedi cyfarfod gyda G L Jones ac angen pris ganddo am offer l'r parc.

Y Clerc I ofyn l'r cyngor Sir dorri gwair yn y Parc.

Goriadau anghywir wedi I roi Glennydd a Sioned

Angen gostwng y palmant er mwyn I gadair olwyn fedru mynd I fewn I'r parc – Y clerc I gysylltu gyda Chris Roberts Cyngor Conwy.

9. CYNLLUNIO – DIM

10. GOHEBIAETH –

Llythyr gan –

Clwb Cemig yn gofyn am arian – Penderfynwyd rhoi £200.

Ysgol Cerrigydrudion yn gofyn am arian – Penderfynwyd rhoi £150

Adran Yr Urdd yn gofyn am arian – Penderfynwyd rhoi £500

Cor Llangwm yn gofyn am arian – Penderfynwyd gofyn iddynt nodi swm ac iddynt roi cais arall I fewn cyn y cyfarfod nesaf.

Aelwyd Llangwm yn gofyn am arian. – Penderfynwyd gofyn iddynt nodi swm ac iddynt roi cais arall I fewn cyn y cyfarfod nesaf.

11. UNRHYW FATER ARALL

Bancio ar y We – Y clerc I edrych I fewn I hyn,

Holiadur wedi ei gymeradwyo a'r Cynghorwyr I'r rhannu o amgylch yr ardal. Byddant yn cael I'w dychwelyd I Ffestri Capel Dinmael a hefyd mewn bocs postio tu allan I'r Gorlan Ddiwilliant.

Carwyn am gael y tafleni wedi eu hargraffu yn Fine Line Ruthin.

Llongyfarchwyd Ysgol Cerrigydrudion am gael canlyniad calonogol iawn gan Estyn.

DYDDIAD CYFARFOD NESA

NOS FERCHER 17.07.24 am 7.30 o'r gloch.